Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## YMDRIN AG ADDYSGU UNED 1

- Mae gan Uned 1 nifer o nodweddion pwysig iawn:
    - mae'n ymdrin â chyfnod hir o Hanes gan ei bod yn cyflawni'r meini prawf cenedlaethol bod rhaid astudio Hanes yn eang ar safon UG ac Uwch
    - mae'n canolbwyntio'n llwyr ar asesu'r ddealltwriaeth o gysyniadau hanesyddol allweddol fel maent yn cael eu pennu yn Amcan Asesu 1
    - mae ei ffocws ar sgiliau yn hytrach nag ar gynnwys a ffeithiau
- Pwysleisir bod rhaid addysgu'r holl gynnwys ym mhob opsiwn, er y pwysleisir hefyd nad oes rhaid i'r cynnwys gael ei addysgu'n drylwyr.

## CYNGOR YNGHYLCH SUT I DRIN CYNNWYS ASTUDIAETH O GYFNOD 2 UNED 1

**Er mwyn rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 2,** argymhellir bod yr athrawon yn anelu at ddefnyddio trosolwg cyffredinol o unigolion, digwyddiadau, termau a dyddiadau pwysig sy'n hanfodol i'r ddealltwriaeth o bob topig neu fater. Mae'n hanfodol pwysleisio y dylid ystyried yr Astudiaeth o Gyfnod fel cyfanwaith a ble bo'n briodol, dylid gwneud cysylltau a chysylltiadau rhwng ac ar draws nodweddion a phriodweddau.

Un ffordd bosibl o reoli cynnwys yr opsiwn hwn yw dechrau pob prif dopig gyda thrafodaeth. Mae dechrau a diweddu'r astudiaeth o bob topig neu fater gyda thrafodaethau neu ddadleuon yn helpu i ganolbwyntio'r sylw ar nodweddion arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r topig neu'r mater. Dylai hyn helpu'r dysgwyr i ganolbwyntio'u sylw ar beth sydd bwysicaf yn y cyfnod a astudir.

Dylai'r athrawon wneud defnydd o'r amrywiaeth o drafodaethau awgrymedig fel dull o drefnu eu hymagwedd at gynnwys y fanyleb, ond ni ddylent gymryd yn ganiataol na disgwyl y bydd cwestiynau arholiad yn cael eu gosod yn uniongyrchol neu eu seilio'n gyfan gwbl ar unrhyw rai o'r trafodaethau a awgrymir isod.

© Hawlfraint y Goron 2018

**Gellir rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 2 drwy gynnal cyfres o drafodaethau neu ddadleuon.** Mae'r awgrymiadau'n cynnwys:

- Trafodwch y dulliau a ddefnyddiwyd gan Iago I i sefydlu a chynnal llinach y Stiwartiaid
- Dadansoddwch y prif heriau a wynebwyd gan Siarl I hyd at 1642
- Trafodwch y rhesymau pam y dechreuodd y Rhyfel Cartref yn 1642
- Gwerthuswch effaith yr arbrofion mewn llywodraethu Seneddol yn y cyfnod 1649-1660
- Trafodwch effaith y Rhyfel Cartref a'r Gymanwlad ar fywydau pobl yng Nghymru a Lloegr, 1642-1660
- Dadansoddwch y rhesymau pam gafodd y frenhiniaeth ei hadfer erbyn 1660
- Trafodwch y prif heriau a wynebwyd gan Siarl II
- Dadleuwch y rhesymau dros Chwyldro Gogoneddus 1688
- Gwerthuswch effaith yr Ardrefniant Chwyldroadol ar wleidyddiaeth, 1689-1715

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 1: DEFNYDDIO DARLUNIAU I DRAFOD CYSYNIADAU

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn cyflwyno a dadlau rhai o'r trafodaethau awgrymedig yn yr opsiwn hwn mae'n bosibl defnyddio darluniau i gyflwyno neu ddatblygu dealltwriaeth o rai o'r materion. Gellir cyflwyno, datblygu, dadlau neu adolygu'r rhan fwyaf o'r cynnwys penodedig sy'n cael ei drafod yn yr opsiwn hwn gan ddefnyddio darluniau. Gall y rhain fod yn gartwnau, paentiadau, printiau neu fapiau. Islaw rhoddir enghraifft sy'n canolbwyntio ar drafod y cysyniad o **ganlyniad.**

Mae'r paentiad isod yn dangos yr ymgais i arestio'r 'pum aelod' gan Siarl I yn 1642. Defnyddiwch y paentiad i ddechrau trafodaeth ar y rhesymau pam ddechreuodd y Rhyfel Cartref yn 1642.



Delwedd gan Charles West Cope / Mae'r ddelwedd yma yn y parth cyhoeddus

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 2: Rhowch radd Coch/Melyn/Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau allweddol

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Ar gyfer pob un o'r trafodaethau awgrymedig a roddir uchod, dylai'r dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o'r nodweddion a'r priodweddau sy'n gysylltiedig â phob un. Er enghraifft, gellir ystyried y rhain am eu pwysigrwydd neu arwyddocâd ym mhob mater. I ddechrau'r broses hon, gallai'r dysgwyr ddefnyddio tri amlygwr lliw i roi seren Goch, Felen neu Werdd wrth ochr pob nodwedd.

Coch: Nodweddion sydd ag ond ychydig berthnasedd i'r ymholiad
Melyn: Nodweddion sydd â rhywfaint o berthnasedd i'r ymholiad
Gwyrdd: Nodweddion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r ymholiad.

Byddai **gweithgareddau cysylltiedig** yn cynnwys defnyddio amlygwyr lliw i amlygu'r nodweddion a'r priodweddau hyn mewn perthynas ag:

**Amser** – ydyn nhw'n ffactorau tymor hir neu dymor byr?

**Persbectif** – ydyn nhw'n ffactorau unigol, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, neu'n gyfuniad o'r rhain?

Dyma enghraifft o drafodaeth awgrymedig:

**Dadansoddwch y rhesymau pam roedd y frenhiniaeth wedi cael ei hadfer erbyn 1660**

Rhowch radd Coch / Melyn Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau canlynol sy'n gysylltiedig â'r drafodaeth hon:

- Dadrithiad cynyddol gydag arweinyddiaeth a pholisïau Oliver Cromwell
- Arweinyddiaeth analluog Richard Cromwell
- Adlach y bobl yn erbyn gweriniaetholdeb
- Dylanwad cadfridogion y fyddin uchelgeisiol
- Dylanwad yr Eglwysi Anglicanaidd ac arweinwyr eglwysi
- Dylanwad propaganda o blaid y brenhinwyr

© Hawlfraint y Goron 2018

- Y newid yn agweddau'r gwleidyddion a'r grwpiau gwleidyddol
- Ofn anhrefn a phrotest
- Dicter yn erbyn llygredd mewn llywodraeth leol
- Awydd cynyddol i adfer/dychwelyd at 'oes aur' y frenhiniaeth
- Dirywiad yn y gefnogaeth i fudiadau a syniadau radical

Nawr gwnewch y gweithgaredd eto ar gyfer unrhyw dri o'r trafodaethau awgrymedig eraill ar dudalen 2.

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 3: SYMUD O HONIAD I DDADL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

**Gellir dilyn Gweithgaredd 2 gan un sy'n gofyn i'r dysgwyr gyfiawnhau eu penderfyniadau graddio Coch / Melyn / Gwyrdd (CMG). Bydd hyn yn helpu gyda'r ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng honiad a dadl.**

**Honiad:** gosodiad neu farn nad ydyw'n cael ei hategu gan reswm neu fanylion ychwanegol.

**Dadl:** honiad a gyfiawnheir gan reswm neu fwy o fanylion ac sy'n egluro neu'n cyfiawnhau rhywbeth ac yn gwrthddweud dadleuon eraill.

**Er mwyn helpu i symud o honiad i ddadl,** darllenwch y cwestiwn enghreifftiol isod ac yna ategwch bob un o'r honiadau er mwyn ei droi'n ddadl.

**'Y brif broblem a wynebwyd gan y Goron yn y cyfnod 1660-1689 oedd crefydd.' Trafodwch.**

H1: Achosodd y problemau cysylltiedig â chrefydd anawsterau anferth i'r Goron yn y cyfnod hwn.

**Ategwch yr honiad hwn**

H2: Mater arall i'w ystyried yw bod y brif broblem a wynebwyd gan y Goron yn fwy cysylltiedig â phersonoliaethau Siarl II ac Iago II mewn gwirionedd.

**Ategwch yr honiad hwn**

H3: Gellir dadlau mai prif broblem y Goron oedd trahauster cynyddol y Senedd.

**Ategwch yr honiad hwn**

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 4: DATBLYGU DADL RESYMEGOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Wrth ystyried y cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu'r opsiwn hwn, disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos y gallu i ddadansoddi'r materion, gwerthuso'u pwysigrwydd ac yn gallu rhoi barn wedi'i chyfiawnhau sy'n cael ei ategu gan wybodaeth briodol dros y cyfnod a osodwyd. Yn aml, gellir gwneud hyn ar y cyd â'r ymagwedd trafodaethau awgrymedig a welir ar dudalen 2 o'r ddogfen hon. Gellir defnyddio pob enghraifft o'r trafodaethau awgrymedig a nodir i fynd i'r afael â chysyniadau hanesyddol penodol a hefyd i helpu dysgwyr i ddatblygu dadl resymegol.

Dyma rai enghreifftiau o sut gall athrawon a dysgwyr fynd ati i ddatblygu dadl resymegol wrth ateb cwestiwn gosod:

'Prif achos y gwrthdaro rhwng y Goron a'r Senedd yn y cyfnod 1603-1642 oedd y mater o ddwyfol hawl.' Trafodwch.

**Nodweddion allweddol:**

Y pwysau dros ddiwygio gwleidyddol – hawliau a breintiau Aelodau Seneddol

Agwedd y Goron tuag at y Senedd

Problemau ariannol a chrefyddol

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

Y cysyniad o ddwyfol hawl

I ba raddau roedd y frenhiniaeth yn ymlynu wrth, ac yn mynnu ei dwyfol hawl?

Arwyddocâd ac effaith dwyfol hawl ar y berthynas gyda'r Senedd

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

Teyrnasiad Iago I, 1603-1625

Teyrnasiad Siarl I, 1625-1642

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad yn cynnwys gwerthuso arwyddocâd:**

Gwrthdaro dros gyllid

Gwrthdaro cysylltiedig â chrefydd

Gwrthdaro cysylltiedig â phersonoliaethau Iago a Siarl

Gwrthdaro cysylltiedig ag ASau radicalaidd

© Hawlfraint y Goron 2018 

Gan ddefnyddio'r enghraifft uchod, **llenwch y diagram sy'n dilyn** ar gyfer dau gwestiwn arall sydd wedi ymddangos ar gyn-bapurau arholiad ar gyfer yr opsiwn hwn.

**Nodweddion allweddol:**

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

**Cwestiwn**

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad:**

© Hawlfraint y Goron 2018 

## GWEITHGAREDD 5: CYSYLLTU CYNNWYS Â CHYSYNIADAU ALLWEDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Mae Amcan Asesu 1 yn amlinellu nifer o gysyniadau sy'n tanategu'r astudiaeth o Hanes UG a Safon Uwch. Wrth ymateb i'w haseiniadau, mae dysgwyr yn aml yn methu â chanolbwyntio ar y cysyniadau allweddol yn eu hymatebion. Yn lle hynny maent yn rhoi gwybodaeth yn null naratif neu restr.

Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn deall bod cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 2 wedi'i gysylltu â'r cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu AA1. Dangosir y cysyniadau allweddol hyn isod gydag enghreifftiau o sut gellir defnyddio cynnwys yr opsiwn hwn i enghreifftio'r cysyniadau penodol hyn.

Edrychwch ar y fanyleb rydych yn ei hastudio ar gyfer Astudiaeth o Gyfnod 2. **Nodwch ddwy nodwedd arall o gynnwys y fanyleb a all enghreifftio pob cysyniad allweddol.**

Cofiwch y gellir defnyddio'r cynnwys penodedig i enghreifftio mwy nag un cysyniad os yw'n briodol.

| Cysyniadau allweddol | Enghreifftiau o gynnwys i enghreifftio'r cysyniadau hyn | |
|---|---|---|
| Achos a chanlyniad | 1 | **Prif achosion** y Rhyfel Cartref, 1625-1642 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Newid a pharhad | 1 | Y **newid** yn ffawd y grwpiau radical, 1640-1689 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol | 1 | I ba raddau roedd y berthynas rhwng y Goron a'r Senedd wedi **newid**, 1625-1689 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Arwyddocâd a phwysigrwydd | 1 | **Arwyddocâd** materion crefyddol yn yr Ardrefniant Chwyldroadol |
| | 2 | |
| | 3 | |

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 6: ADNABOD CYSYNIADAU HANESYDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Bydd pob un o'r cwestiynau a osodir ar gyfer Uned 1 yn disgwyl i chi gyflwyno dadl dros gysyniad hanesyddol. I wneud hyn yn effeithiol dylech ddod yn grefftus wrth adnabod y cysyniad a'r gwerthusiad y mae'r cwestiwn yn gofyn amdanynt.

A allwch chi nodi'r cysyniad allweddol o'r cwestiynau enghreifftiol isod? Mae'r cyntaf wedi ei gwblhau a'i ddangos mewn **print trwm.**

- **Pa mor llwyddiannus** oedd y Goron wrth ddelio â'r heriau a wynebai yn y cyfnod 1603-1642?
- I ba raddau oedd yr Uwchfrigadwyr yn ateb effeithiol i'r problemau oedd yn wynebu Cromwell yng nghyfnod y Rhyngdeyrnasiad?
- 'Syniadau'r Lefelwyr oedd y dylanwad mwyaf arwyddocaol ar ddiwygio cymdeithasol a gwleidyddol yn y cyfnod 1642-1660.' Trafodwch.
- I ba raddau ydych chi'n cytuno mai'r Cloddwyr oedd y mudiad radicalaidd mwyaf effeithiol yn y cyfnod 1645-1715?
- Ai'r galw am ryddid a goddefgarwch crefyddol oedd yn bennaf gyfrifol am y Chwyldro Gogoneddus yn 1688?
- I ba raddau oedd yr anghydfodau rhwng y Goron a'r Senedd wedi eu hunioni erbyn 1689?

Gallwch hefyd ddefnyddio cyfleuster Banc Cwestiynau CBAC i ymarfer adnabod y cysyniadau allweddol mewn amrywiaeth o hen gwestiynau eraill. Mae hwn ar gael yn:

http://www.cbac.co.uk/question-bank/index.html?language_id=2

© Hawlfraint y Goron 2018 

## GWEITHGAREDD 7: GOSOD CWESTIYNAU CYSYNIADOL PRIODOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn deall natur ehangach Uned 1 mae'n bwysig bod athrawon a dysgwyr yn ymgyfarwyddo â sut mae cwestiynau cysyniadol yn cael eu ffurfio, sut gellir eu brawddegu a sut gellir eu haddasu yn ôl pa faes o'r astudiaeth o gyfnod a addysgir. Cynigir y cyngor canlynol:

- dylai'r cwestiwn fod yn **fater prif ffrwd** sydd wedi'i enwi neu ei gysylltu'n agos â'r manylion yn y fanyleb. Ceisiwch beidio â gosod cwestiynau ar rannau mân neu ddibwys o'r fanyleb.
- Rhaid bod yna **ddigon o sylwedd** i'r prif fater a osodir fel y bydd yn hybu dadl fywiog ar y topig a astudir. Peidiwch â gosod mater y mae'n hawdd i'r dysgwyr ei ddiystyru
- dylai'r cwestiwn a osodir ymdrin â **chyfnod sylweddol o amser**
- dylai fod modd i'r dysgwyr **gynnal dadl** drwy gydol yr ateb
- dylai'r cwestiwn ganiatáu i'r dysgwyr ddangos bod ganddynt **ddealltwriaeth o'r cysyniad hanesyddol perthnasol** yn y cwestiwn
- dylai'r cwestiwn gynnwys **gair neu eiriau allweddol** a fydd yn caniatáu i'r dysgwyr ffurfio barn gytbwys e.e. *'Y brenin oedd y prif ddylanwad ar ddatblygiad gwleidyddiaeth a llywodraeth rhwng 1660 ac 1715.' Trafodwch.*

Ffordd awgrymedig o ymdrin â'r agwedd hon ar ddysgu yw defnyddio'r rhestr wirio ganlynol pan osodir tasgau a chwestiynau ar gyfer y dysgwyr.

| Ydy'r cwestiwn a osodwyd yn... | YDY | NAC YDY |
|---|---|---|
| amlygu mater prif ffrwd? | | |
| hyrwyddo ymgysylltu â dadl? | | |
| ymdrin â chyfnod sylweddol o amser? | | |
| canolbwyntio ar gysyniad hanesyddol allweddol? | | |
| cynnwys gair gwerthusol? | | |

© Hawlfraint y Goron 2018

Ceisiwch osod eich cwestiynau cysyniadol eich hun ar gynnwys Astudiaeth o Gyfnod 2. A allwch chi osod cwestiynau cysyniadol priodol ar y meysydd cynnwys canlynol?

- Y rhesymau dros y newidiadau mewn llywodraeth, 1642-1689
- Effeithiolrwydd polisïau'r llywodraeth yn ystod y Rhyngdeyrnasiad, 1649-1660
- Cymhariaeth o arwyddocâd Buckingham a Laud, 1615-1642
- Effaith y Rhyfel Cartref ar fywydau pobl yng Nghymru a Lloegr, 1642-1660
- I ba raddau newidiodd llywodraeth a gwleidyddiaeth yn y cyfnod, 1660-1715

Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn, ceisiwch roi gradd CMG i'r nodweddion allweddol sy'n gysylltiedig â'ch cwestiynau.

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 8: GWERTHUSO GWAITH YN NULL TRAETHAWD

Dyma ddwy enghraifft o atebion i gwestiynau Uned 1 a osodwyd yn arholiadau 2017.

- Allwch chi gymhwyso'r rhestr wirio ar dudalen 11 y ddogfen Cyflwyno cysyniadau hanesyddol yn Uned 1 at y traethodau hyn?
- Ystyriwch gryfderau a chyfyngiadau pob traethawd.
- Ystyriwch sut gallech wella pob un a pha gyngor allech chi ei roi i'r dysgwr a'i hysgrifennodd.

© Hawlfraint y Goron 2018

## Enghraifft batrymol 1

**'Prif achos y tensiwn rhwng Iago I a'r Senedd rhwng 1603 ac 1625 oedd iddo ddyrchafu ei ffefrynnau brenhinol.' Trafodwch.**

Gellid dadlau mai'r prif gatalydd yn y tensiwn cynyddol a'r dirywiad yn y berthynas rhwng Iago I a'r Senedd oedd oherwydd ei fod yn dyrchafu ei ffefrynnau brenhinol gan y gwnaeth hyn fegino'r amheuaeth ynglŷn â'r Brenin oedd ym meddyliau'r Senedd yn barod oherwydd ei natur estron, Albanaidd. Roedd hyn hefyd i raddau helaeth oherwydd y ffaith fod ffefrynnau Iago yn Albanwyr eu hunain gan mwyaf; roedd hyn yn achos pryder i'r Senedd oherwydd bod y plethora sydyn o ffefrynnau Albanaidd yn derbyn arian a theitlau ar draul Lloegr. Perswadiodd hyn y Senedd i wynebu Iago ynghylch ei ddewis o ffefrynnau ac ar ben hynny gosododd hyn ef mewn cyfnod o elyniaeth tuag at y Senedd, gan y credai bod ymdrechion y Senedd i gael unbennaeth dros ei reolaeth yn fygythiad i'w uchelfraint frenhinol ac felly roedd hyn mewn gwrthdaro â'i gred yn nwyfol hawl brenhinoedd.

Serch hynny gellid dadlau p'un ai mai agweddau absoliwtaidd Iago, a oedd mor nodweddiadol o frenhiniaeth gyfan y Stiwartiaid, a arweiniodd i wrthdaro rhwng y brenin a'r genedl wleidyddol, oherwydd yn anaml fyddai Iago yn cyfarfod y Senedd ac roedd braidd yn anwybodus o ran polisïau gwleidyddol yn ystod ei deyrnasiad am fod ganddo lawer mwy o ddiddordeb mewn gweithgareddau afradlon fel hela, gwledda a mynd i bartïon ond ar yr un pryd roedd yn dal i fynnu bod ganddo oruchafiaeth dros y wlad a bod y Senedd yn eilradd iddo. Oherwydd ei hoffterau afradlon, daeth Iago yn anghyfrifol yn ariannol, a gellid dehongli bod hwn hefyd yn ffactor pwysig o leiaf yn y gynnen rhwng y Senedd a'r Brenin, oherwydd er i Iago etifeddu dros £100,000 o ddyledion gan ei ragflaenydd, ychydig fisoedd ar ôl i'w deyrnasiad ddechrau, roedd wedi cronni £816,000 yn fwy o ddyled. Felly roedd rhaid i'r Senedd fonitro'i wariant, gan fegino perthynas o ddicter a drwgdybio gynyddol rhwng Iago a'r Senedd. Serch hynny cynigiodd y Senedd swm o arian er mwyn talu dyledion Iago, ond yna aeth ati i roi'r arian i'w ffefrynnau Albanaidd. Felly gellid dadlau nad prif achos y tensiwn rhwng y cenhedloedd brenhinol a gwleidyddol oedd dyrchafu'r ffefrynnau brenhinol, ond yn hytrach, ei driniaeth o'i ffefrynnau brenhinol a'i haelioni gormodol tuag at y rhain ac yn benodol, y ffefrynnau brenhinol a alwodd Iago o'r Alban ar ddechrau ei deyrnasiad yn 1603.

Fodd bynnag, er bod Iago yn ddiamau yn anghyfrifol yn ariannol, rhoddodd y Senedd gymhorthdal oedd yn annigonol ar gyfer cynnal costau'r osgordd frenhinol. Er iddo dderbyn yr un swm o arian ag Elisabeth, roedd Iago yn gyfrifol yn ariannol am ei wraig oedd yn hannu o'r Iseldiroedd a'i blant, ynghyd â Thywysog Cymru. Felly efallai gellid dweud, oherwydd y ffaith fod y Senedd yn anwybodus i raddau helaeth ynghylch costau'r osgordd frenhinol, ynghyd â'r ffaith fod Iago wedi ecsbloetio cymhorthdal y Senedd a'r grantiau a dderbyniodd, mai prif achos y tensiwn rhwng Iago a'r Senedd oedd y cyfyng-gyngor ariannol anferth a ymgododd rhwng 1603 ac 1625, ac nid y ffaith ei fod wedi dyrchafu ei ffefrynnau brenhinol.

Fel y nodir uchod, mae'r dybiaeth mai dyrchafu ffefrynnau Iago a arweiniodd i'r dirywiad

© Hawlfraint y Goron 2018 

mewn cydweithrediad brenhinol a gwleidyddol yr un mor ddadleol. Honnir bod Iago wedi ymhél â charwriaethau cyfunrywiol cywilyddus – y mwyaf amlwg oedd gyda Robert Carr a George Villiers, Dug Buckingham yn ddiweddarach. Mae'n ymddangos bod y diffyg ymdrech gan Iago i guddio'r carwriaethau hyn wedi creu dicter ac amheuaeth, yn enwedig yn y Senedd, a gallai hyn fod wedi cyfrannu at y canfyddiad mai dyrchafiad, ac yn ddiweddarach, triniaeth ei ffefrynnau gan Iago a gynyddodd y tensiwn yn sylweddol.

Gellid hefyd ystyried bod Iago yn ymddieithrio'n gynyddol oddi wrth y Senedd i raddau helaeth oherwydd bod y Senedd yn herio'r uchelfraint frenhinol, gan weithredu'n ymyrgar ym mywyd Iago a cheisio rhoi stamp eu hawdurdod eu hun. Mae'n ymddangos mai dyma oedd wrth wraidd yr holl broblemau eraill, yn wleidyddol ac yn ariannol, gan fod gweithredoedd y Senedd mewn gwrthdaro â chredau absoliwtaidd Iago. Gellir olrhain yr holl densiynau eraill i'r canfyddiad hwn.

## Enghraifft batrymol 2

**I ba raddau roedd crefydd yn bennaf gyfrifol am y tensiynau rhwng y Goron a'r Senedd yn y cyfnod 1660-1689?**

Yn ystod y cyfnod 1660-1689 roedd dau frenin, y Brenin Siarl II a oedd yn Brotestant ac a reolodd rhwng 1660 ac 1685, a'i frawd iau, Iago II a oedd yn Babydd ac a reolodd rhwng 1685 ac 1689. Roedd gan y ddau safbwyntiau eithafol tra gwahanol ar grefydd a arweiniodd i densiynau rhwng y Goron a'r Senedd.

Gellir dadlau mai crefydd oedd prif achos y tensiynau rhwng y Goron a'r Senedd. Yn ystod teyrnasiad y Brenin Siarl II, arwyddwyd Cytundeb Dofr rhwng Siarl a'r Brenin Louis XIV o Ffrainc oedd yn Babydd. Yn y Cytundeb hwn, addawodd Louis anfon £200,000 y flwyddyn at Siarl a'i helpu i ymladd yn erbyn yr Iseldirwyr cyhyd ag y byddai'r Brenin Siarl II yn dod yn Babydd yn gyfrinachol a chyhoeddi hyn pan fyddai'n bosibl. Roedd y Senedd yn gwybod bod rhywbeth ar y gweill a theimlai dan fygythiad rhag ofn byddai'r Brenin yn troi at Babyddiaeth. Byddai hyn wedi achosi gwrthryfeloedd a thensiynau mawr rhwng y Senedd a'r brenin gan fod y rhan fwyaf o'r Seneddwyr yn Biwritaniaid, sef ffurf gref ar Brotestaniaeth. Felly achosodd hyn densiynau mawr rhwng y Goron a'r Senedd.

At hynny, yn 1685 pan fu farw'r Brenin Siarl II esgynnodd ei frawd iau, Iago II i'r orsedd. Creodd hyn fwy o densiynau rhwng y Senedd a'r Goron gan fod gan y ddwy ochr safbwyntiau crefyddol gwahanol iawn ac nid oedd y Senedd eisiau cael brenin Pabyddol. Gan ei fod yn amhoblogaidd, aeth Iago draw i Iwerddon i ennill cefnogaeth gan y Pabyddion yno. Hefyd rhoddodd y Senedd wahoddiad i Gwilym III o Orange, a oedd yn Brotestant o'r Iseldiroedd, i feddiannu gorsedd Lloegr i ddymchwel Iago. Mae hyn yn dangos bod gwahaniaethau sylweddol mewn crefydd rhwng y Goron a'r Senedd. Ar ôl i'r Brenin Iago gael ei olynu cyflwynwyd bil yn dweud na allai brenin oedd yn Babydd reoli Lloegr, Iwerddon a'r Alban ac mae hwn yn dal mewn grym hyd heddiw. Mae hyn yn dangos faint o broblemau a achoswyd gan grefydd.

Fodd bynnag, roedd problemau eraill o hyd heblaw am grefydd a allai fod yn gyfrifol am y tensiynau rhwng y Goron a'r Senedd. Gelwid Siarl II yn aml 'Y Brenin Llon' gan ei fod yn aml yn mwynhau gwario'i arian ar gelfyddyd a llenyddiaeth ac nid oedd yn hoffi ymglymu'n llawn wrth wleidyddiaeth ar y pryd. Yn aml, byddai ei ymgynghorydd gwleidyddol, Clarendon, yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith. Fodd bynnag roedd hwn yn amhoblogaidd gan lawer gan iddo roi'r argraff ei fod yn hunanfodlon. Gan nad oedd pethau'n mynd yn rhy dda i Siarl roedd yn hoff o feio Clarendon am bethau fel tair Rhyfel yr Iseldiroedd, y pla yn 1665 a Thân Llundain yn 1666 ac fe'i taflodd i'r 'bleiddiaid gwleidyddol', sef y gwleidyddion oedd yn ei feirniadu ac nad oeddent yn ei hoffi. Felly achosodd hyn densiynau gwleidyddol rhwng y brenin a'r Senedd dros Clarendon. Rheolodd y Brenin Siarl II heb y Senedd hefyd am nifer o flynyddoedd ac roedd llawer o'r gred y gallai ddilyn ei dad, y Brenin Siarl I.

I gloi, rwy'n credu mai crefydd oedd yn sicr yn fwyaf cyfrifol am y tensiynau rhwng y Goron

a'r Senedd yn y cyfnod 1660-1689 oherwydd bod pobl yn ofni cael brenin Pabyddol a gweld Lloegr yn newid i Babyddiaeth. Rwy'n credu mai Iago II achosodd y problemau mwyaf gan ei fod eisiau newid y wlad o fod yn Brotestannaidd yn bennaf i wlad Babyddol ac nid oedd pobl yn hoffi ei safbwyntiau. Mae'r ffaith na chaniateir brenhinoedd Pabyddol ym Mhrydain hyd heddiw yn awgrymu pa mor bwysig oedd y mater hwn.

© Hawlfraint y Goron 2018 